YSGOL GYNRADD CREIGIAU

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR AR GYFER Y RHIENI 2010 / 2011

1. NIFER AR Y GOFRESTR

Class 7: (Mr. P.Ivins)	24	(B6)
Class 6: (Miss B.Harries)	27	(B5)
Class 5: (Mrs. J. Elliott)	30	(B4)
Class 4: (Miss S. Griffin / Mrs. R. Hussey)	26	(B3)
Class 3: (Mrs. F. Willmott)	27	(B2)
Class 2: (Mrs. K. Rees)	30	(B1)
Class 1: (Mrs. C. Hurford)	25	(D)
Dosb.6: (Mrs. E.D. Evans)	23	(B6)
Dosb.5: (Mrs. D. Kirkman)	31	(18B5 + 13B4)
Dosb.4: (Mr. L. Balbini)	18	(B3)
Dosb.3: (Mrs. G. Griffith)	23	(B2)
Dosb.2: (Mrs. E. Evans)	24	(B1)
Dosb.1: (Mrs. L. Thomas)	24	(D)
Nursery :(Miss H. Davies)	33	(M)
Meithrin: (Miss H. Davies)	32	(M)

	397	

O.N. O Fis Medi 2011 bydd Teitl y Dosbarth yn newid er mwyn adlewyrchu Grŵp y Flwyddyn

e.e. Reception (Disgyblion dosbarth derbyn yr Adran Saesneg)
Derbyn (Disgyblion dosbarth derbyn yr Adran Gymraeg)
Class 1 (Disgyblion dosbarth blwyddyn 1 yr Adran Saesneg)
Dosb.3 (Disgyblion blwyddyn 3))
Dosbarth 4/5 (Dosbarth yn cynnwys disgyblion blwyddyn 4 a blwyddyn 5) ac yn y blaen.

2. STAFFIO

(a) Addysgu

Cychwynnodd Miss Buddug Harries a Mrs. Kirstie Rees ar eu dyletswyddau fel athrawon amser llawn ym mis Medi 2010. Cyn hynny gweithiai Mrs. Rees fel athrawes ran-amser. Ymgyfarwyddodd y ddwy yn dda â'u dyletswyddau newydd ac eisoes gwnaethant gyfraniad sylweddol i waith yr ysgol.

Bydd Mrs. Julie Elliott ar secondiad i`r Sir am flwyddyn o Fis Medi ymlaen fel Athrawes Partneriaith Anghenion Addysgol Arbennig. Mae ei swydd yn yr ysgol wedi ei hysbysebu ar gontract blwyddyn.

Pan ysgrifenwyd yr adroddiad yma, roedd Mrs Kirstie Rees a Mrs. Glenda Griffith yn absennol ar ôl torri esgyrn. Dymunwn wellhad buan a llwyr iddynt.

Bydd Mrs. Janet Rawle yn ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn addysgol. Ar hyn o bryd mae hi'n gweithio 1.5 diwrnod yr wythnos fel athrawes PPA ar gyfer `Classes` 1,2 a 3. Bu'n gysylltiedig â'r ysgol am tua 25 mlynedd fel rhiant i ddau fachgen yn yr ysgol ac fel un o'n hathrawon cyflenwi rheolaidd. Carem ddiolch i Mrs. Rawle am ei gwasanaeth ffyddlon a'i chyfraniad i addysg disgyblion yn y

dosbarth Meithrin ac Adran Saesneg y Babanod. Dymunwn ymddeoliad hir a hapus iddi.

(b) Cymorth Dysgu

Penodwyd Mrs. Claire Wilkins yn Gynorthwydd Dosbarth amser llawn ym mis Medi 2011 ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ar gytundeb tymor sefydlog.

Penodwyd Mrs.Gemma Loveless-Orellana ym mis Ionawr 2011 fel Cynorthwywraig Dosbarth rhan-amser.

(c) Llywodraethwyr

Bydd Mr. Philip Davies (cadeirydd) a Mrs. Rhian Horsey (is-gadeirydd) yn ymddiswyddo o'u dyletswyddau ar ddiwedd y flwyddyn ysgol. Gwnaethant gyfraniad mawr i ddatblygiad yr ysgol a rhoi arweiniad ar sail barn gadarn, proffesiynoldeb a gwaith diflino. Mae holl gymuned yr ysgol yn ddyledus ac yn ddiolchgar iddynt am eu gwaith a'u hymroddiad. Diolch i'r ddau ohonoch!

Bydd Mr. David Dawkins yn ymddeol ar ddiwedd y tymor ar ôl 15 mlynedd fel Clerc y Corff Llywodraethu. Carem ddiolch iddo am ei wasanaeth ffyddlon i'r corff llywodraethu. Adlewyrchir hyn gan y ffaith mai dim ond dau gyfarfod a gollodd yn ystod y cyfnod hwn. Byddwn hefyd yn colli'i synnwyr o ddigrifwch a'i hoffter o drafodaeth dda. Fodd bynnag, bydd yn parhau i weithio yn adran weinyddol yr ysgol ac yn Ysgol y Gyfraith yn y Brifysgol.

3. ADRODDIAD AROLWG YR YSGOL

Dosbarthwyd Adroddiad yr Arolwg i'r rhieni ym mis Medi 2010. Mae brawddeg agoriadol yr adroddiad yn crynhoi holl ansawdd yr adroddiad trwy nodi: "**Mae Ysgol Creigiau yn ysgol sydd ag amryw o agweddau rhagorol. Ymhlith y rhain mae safonau cyrhaeddiad y disgyblion, ansawdd yr addysgu a'r profiadau o ystod eang a gynigir i'r disgyblion**." (Defnyddir yr ansoddair "rhagorol" dros hanner cant o weithiau i ddisgrifio gwahanol agweddau o waith yr ysgol)

Dyfarnwyd 6 Gradd 1 ac un Gradd 2 i'r saith Cwestiwn Allweddol.

C.A.1. Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni? = Gradd 1

C.A.2. Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? = Gradd 1

C.A.3. Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? = Gradd 1

C.A.4. Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? = Gradd 2

C.A.5. Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth startegol? = Gradd 1

C.A.6. Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau = Gradd 1

C.A.7. Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? = Gradd 1

Dyfarnwyd 40% Gradd 1 i'r ysgol am addysgu a 60% Gradd 2 (17% yw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Gradd 1).

Mae Estyn yn defnyddio graddfa 5 pwynt i gynrychioli arfarniadau yr arolygu.

Gradd 1 = da gyda nodweddion rhagorol

Gradd 2 = nodweddion da a dim diffygion pwysig

Gradd 3 = nodweddion da'n gorbwyso diffygion

Gradd 4 = rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig

Gradd 5 = llawer o ddiffygion pwysig

Fel corff llywodraethol mae'n ofynnol i ni ymateb i'r pedwar argymhelliad a geir yn yr Adroddiad.

A1. Sefydlu polisi i hyrwyddo medrau menter y disgyblion ar gyfer yr ysgol gyfan a chynhwysir y polisi yng Nghynllun Gwelliant yr Ysgol (SIP)

A2. Mae manylion cyllidol Cynllun Gwelliant yr Ysgol sy'n berthnasol i flaenoriaethau gwelliant eleni (2010-2011) wedi cael eu cynnwys yn y cynlluniau.

A3. Cododd y llywodraethwyr faterion yn ymwneud â maint a chynllun neuadd yr ysgol a rhai ystafelloedd dosbarth yn ogystal â chyflwr gwael rhai ystafelloedd symudol mewn dau gyfarfod â Graham Dalton (Rheolwr Cynllunio a Mynediad) a'r Cynghorydd Freda Salway (Aelod Gweithredol: Addysg ac Addysg Gydol Oes). Cytunodd y sir i osod ystafell symudol ddwbwl symudol yn lle ystafelloedd Dosbarth (*Classes)* 1 a 2 ar gost o tua £120,000. Cytunwyd hefyd i adnewyddu ystafelloedd Dosbarth (*Class)* 3 a Dosbarth 4.
Mae'n amlwg y byddai'n well gennym gael adeilad newydd yn lle'r holl ystafelloedd symudol yn ogystal â pheth gwaith ailstrwythuro yn y prif adeilad a'r neuadd ond nid oes gan y sir gynlluniau ar gyfer hyn yn y dyfodol rhagweladwy. Byddai'n ofynnol gwneud y gwaith hwn o dan Raglen Gwariant Cyfalaf y Sir nad oes gennym reolaeth drosti. Mae'r Corff Llywodraethol yn pwyso ar y sir i baratoi cytundeb drafft yn gysylltiedig â Rhaglen Gyfalaf o waith ar gyfer yr ysgol.

A4: Er mwyn osgoi problemau a all godi o safbwynt diogelwch, gwnaethpwyd y gwaith canlynol:

a) Codwyd clwyd a ffens newydd gerllaw'r boelerdy. Atgoffir aelodau staff yn gyson ynghylch pwysigrwydd diogelu'r allanfeydd a'r mynedfeydd angenrheidiol.

b) Gofynnwyd i rieni a gofalwyr adael eu plant ger y clwydi dwbl ar waelod y llwybr llydan neu wrth ddrws ystafelloedd cotiau y Cyfnod Sylfaen Cymraeg pan fyddant yn dod â'u plant i'r ysgol yn y bore. Mae aelodau staff ar ofalaeth yn y ddau le dan sylw yn ogystal ag ar yr iard o 8.50 y.b.

c) Bydd dau aelod o'r staff yn cwrdd â'r plant o'r bws ysgol yn y bore ac yn eu tywys i'r bws ar ddiwedd y prynhawn.

ch) Mae aelodau staff wedi derbyn hyfforddiant yn ymwneud â materion diogelwch plant.

d) Diweddarwyd yr amserlen ynghylch y blaenoriaethau cyfredol yng Nghynllun Hygyrchedd yr Ysgol.

dd) Cynhaliwyd cyfarfod safle ar 26.11.10 am 3.00 y.h. ac yn bresennol roedd swyddogion cludiant a diogelwch ar y ffordd, llywodraethwyr, cynghorwyr yn ogystal â chynrychiolwyr o Creigiau Travel er mwyn trafod y pryder a fynegwyd yn adroddiad yr arolygwyr ynghylch y bws yn troi y tu allan yr ysgol. Cytunodd Creigiau Travel i ddefnyddio cerbyd llai er mwyn hwyluso'r gwaith o droi yn ôl yn ogystal â hyfforddi rhywun i dywys y bws. Bydd y gofalwr hefyd yn gosod coniau gwyrdd ar fynedfa Clos Tregarth er mwyn atal ceir rhag parcio yno.

4. Y CWRICWLWM

(a) Y Cyfnod Sylfaen

Dyma'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion 3-7 oed ac mae'n cyfuno Blynyddoedd Cynnar (dan bump oed) a Chyfnod Allweddol 1 (5-7 oed)

Cyflwynwyd i: Nursery / Meithrin yn Medi 2008
Dosbarth Derbyn ym Medi 2009
Blwyddyn 1 ym Medi 2010

Cyflwynir y cwricwlwm i Flwyddyn 2 ym Medi 2011

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn rhoi rhagor o bwyslais ar ddysgu ar sail profiad, cysylltiad gweithredol ynghyd â phwyslais ar e.e. medrau, agweddau cadarnhaol, hunan-barch a gweithgaredd awyr agored.

Am ragor o wybodaeth ewch i:
www.creigiauprm.cardiff.sch.uk neu www.wales.gov.uk/foundationphase

(b) Cwricwlwm ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 (7-11 oed)

Cyflwynwyd y fersiwn diwygiedig hwn o'r Cwricwlwm Cenedlaethol i Flwyddyn 6 ym Medi 2008, ac i Flynyddoedd 3, 4 a 5 ym Medi 2009. Mae'r cwricwlwm hwn yn barhad i'r Cyfnod Sylfaen sy'n rhoi pwyslais ar y sgiliau fframwaith ar draws y cwricwlwm, e.e. Meddwl, Cyfathrebu, TGCh a Rhif

Am ragor o wybodaeth ewch i:
www.creigiauprm.cardiff.sch.uk neu www.wales.gov.uk/education

(c) Cynllun Gwelliant yr Ysgol 2010 – 2011

- Monitro Addysg Bersonol a Chymdeithasol (PSE), Anghenion Addysgol Arbennig (SEN) ac Asesu, Cofnodi ac Adrodd (ARR).
- Datblygu Medrau Menter y disgyblion
- Paratoi ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus ar gyfer disgyblion Blwyddyn 2 ym Medi 2011
- Ymgymryd ag archwiliad o adnoddau darllen a pholisïau yn ymwneud â darllen.

Mae'r arweinwyr pwnc/agweddau eisoes wedi cwblhau'r tasgau uchod yn llwyddiannus a chafodd y canlyniadau ddylanwad cadarnhaol ar y disgyblion- e.e. Clwb Menter, rhagor o adnoddau darllen, prawf sillafu newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 ac mae strategaethau wedi'u gosod eisoes ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen i Flwyddyn 2 ym Medi 2011.

(5) ADEILADAU A'U HAMGYLCHFYD

Trefnodd y Llywodraethwyr ddau gyfarfod gyda Swyddogion y Sir a'r Cynghorwyr er mwyn dwyn eu sylw i'r sylwadau yn Adroddiad Estyn ynghylch maint neuadd yr ysgol a chyflwr gwael rhai o'r adeiladau symudol. Hysbyswyd ni ym mis Chwefror 2011 y byddai Dosbarthiadau *(Classes)* 1 a 2 yn cael eu disodli gan adeilad symudol newydd ac y byddai gwaith adnewyddu helaeth yn digwydd yn Nosbarth *(class)* 3 a Dosbarth 4. Nododd awdurdodau'r sir ynghynt nad yw'r ysgol yn rhan o'r cyfnod cyfredol o ailadeiladu/ailstrwythuro ac na fyddai cyllid cyfalaf ar gael am o leiaf bedair blynedd ar gyfer gwaith helaeth o'r fath. Rydym oll yn dymuno gweld adeilad newydd o friciau ond mae'r cynlluniau sydd ar y gweill yn bendant yn well na'r sefyllfa bresennol a gobeithir y byddwn yn cael ein cynnwys yn ystod y cyfnod pedair blynedd nesaf. Cyfanswm y gwaith o ddisodli Dosbarthiadau *(classes)* 1 a 2 i'r sir yn fras yw £120,00. Ni osodwyd swm ar gyfer adnewyddu y ddau adeilad symudol arall ond amcangyfrifir yn bydd yn golygu rhai miloedd o bunnoedd am fod yn gwaith yn cynnwys gorchuddio rhannau allanol yr ystafelloedd dosbarth, ffenestri newydd a drysau allanol newydd. Gwneir y gwaith hwn yn ystod gwyliau'r haf yn barod ar gyfer tymor yr hydref 2011. Atgoffodd y Corff Llywodraethol y sir o bwysigrwydd cadw at yr amserlen hon.

- Adnewyddwyd y toiledau yn ystafell gotiau Cyfnod Sylfaen (F.P.) Cymraeg. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i adnewyddu'r toiledau yn ystafelloedd cotiau Cyfnod Allweddol 2 (KS2) Saesneg

- Mae'r gwaith o ddatblygu'r ystafelloedd dosbarth ar gyfer dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen (FP) yn parhau.

(6) CYLLIDEB

Cafodd yr ysgol setliad cyllidol anodd ar gyfer blwyddyn gyllidol 2011–2012. Pe baem yn parhau i wario ar yr un raddfa â 2010-2011 byddai gennym ddiffyg ariannol o £60,000 yn 2011-2012. Ar ôl cyfres o gyfarfodydd gyda Swyddog Cefnogi Ariannol y sir a'r Is-bwyllgor Cyllid, penderfynwyd mabwysiadu cyllideb gytbwys. Penderfynwyd tynhau ar wariant yn gyffredinol trwy leihau oriau aelodau staff cefnogi sy'n mynychu cyrsiau a gyllidir yn unig (angen llai o gyflenwi), lleihau cyllid ar gyfer adnoddau, ailstrwythuro cefnogaeth Anghenion Addysgol Arbennig, athrawon yn mynychu pwyllgorau pan fo'r corff sy'n trefnu yn talu am waith cyflenwi, ailstrwythuro gwaith llungopïo ac arbedion pellach trwy leihau treuliant egni.

Rydym hefyd wedi adolygu ein polisi codi arian ar y sawl sy'n defnyddio cyfleusterau'r ysgol, megis rhentu'r neuadd a llungopïo. Tra bo'r ysgol yn awyddus i barhau i gefnogi grwpiau lleol a'r gymuned trwy ddarparu cyfleusterau iddynt, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn adfer unrhyw gostau. Os oes gan rieni awgrymiadau pellach ynghylch dulliau posib o gynilo, byddem yn croesawu eich syniadau.

(7) CYFLAWNIAD a CHYNHWYSIAD

O safbwynt ethos yr ysgol mae pob plentyn yn dda am wneud rhywbeth. Mae hwn yn ffactor pwysig wrth ddatblygu hunan-barch a hyder y disgyblion. Gosodwyd nifer o strategaethau i gynorthwyo plant sy'n profi anawsterau ar unrhyw adeg. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogaeth 1:1 yn y dosbarth, cyngor rhad ac am ddim gan *Dyslexia Action* sy'n gweithio yn yr ysgol am ddau ddiwrnod bob wythnos, gwaith gwahaniaethol ac yn y blaen.

Mae hi yr un mor bwysig bod anghenion y disgyblion Mwyaf Galluog a Thalentog yn cael sylw hefyd. Mae'r strategaethau hyn yn cynnwys gwaith gwahaniaethol a thasgau penagored. Mae ein Dull Thematig o weithio hefyd yn galluogi plant i ymgymryd â gwaith unigol a gwaith fel aelod o grŵp gartref ac yn yr ysgol. Ein nod yw datblygu ein disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol sy'n mwynhau dysgu.

Mae gweithgareddau fel y Sialens Fathemateg, cystadlaethau ysgrifennu a chlybiau ysgol (gan gynnwys ein clwb papur newydd) hefyd yn rhoi cyfle i nifer o'n disgyblion i ddefnyddio'u doniau.

(8) GWEITHGAREDDAU ALL-GWRICWLAIDD

- Pêl-rwyd (Bl5 & Bl6 a Bl4 yn ystod tymor yr haf), pêl-droed a rygbi (Bl4, Bl5 a Bl6), criced (Bl6) , clwb rhedeg (Cyfnod Allweddol 2)

- Côr (Bl4, Bl5 & Bl6 a Bl3 yn ystod tymor yr haf), Cerddorfa (Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 i ddisgybl â Gradd 2 neu uwch mewn offerynnau cerddorfaol), Clwb Tric (Bl5 & Bl6), Seren Creigiau Star (Bl5 & Bl6), Clwb Menter (Cyfnod Allweddol 2) a Chlwb Gwyddbwyll (Bl6)

- Garddio (Cyfnod Allweddol 2)

- Cyrsiau preswyl am wythnos neu benwythnos (Bl6)

- Cyfarfodydd Ysgol Eco (Bl2 & Cyfnod Allweddol 2)

- Cyfarfodydd Cyngor yr Ysgol (Bl2 & Cyfnod Allweddol 2)

(9) CYMDEITHAS RHIENI/ATHRAWON

Mae'r Gymdeithas hon yn allweddol o safbwynt ei swyddogaeth fel rhan o gymuned yr ysgol. Mae'n darparu adnoddau gwirioneddol angenrheidiol gan gyllido costau teithio ar gyfer ymweliadau addysgol, trosglwyddo a chwaraeon.

Trwy gyfrwng cefnogaeth y Gymdeithas bu'n bosib i ni brynu system sain ryngweithiol yn y neuadd yn ogystal â thelyn. Trefnwyd ymweliadau llwyddiannus gan awduron, ysgrifennwr a darlunydd fel rhan o ddathliad Diwrnod Byd Eang y Llyfr. Prynwyd adnoddau hefyd ar gyfer mannau chwarae yn yr awyr agored.

Dymuna'r llywodraethwyr gofnodi eu gwerthfawrogiad o waith caled y pwyllgor a'r amser a dreuliwyd gan yr aelodau yn mynychu cyfarfodydd a threfnu rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau. Ni fyddai wedi bod yn bosib cael yr adnoddau uchod oni bai am y digwyddiadau a drefnwyd gan y pwyllgor. Dewch i'r Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol ym Medi gan gynnig eich enw i gynorthwyo'r Cyfeillion. Ein plant sy'n medi'r manteision.

(10) ASESU, COFNODI ac ADRODD

Anfonir copïau caled o'r adroddiadau crynodeb ar ddiwedd asesiadau'r Cyfnodau Allweddol at yr holl rieni.

(11) YR YSGOL YN Y GYMUNED

Teimla'r llywodraethwyr yn gryf y dylai hon fod yn ysgol gymunedol. Defnyddir yr ysgol yn rheolaidd gan y mudiadau canlynol:

- Cantorion Creigiau
- Cyfeillion yr Ysgol
- Yr Heddlu a Chymunedau ar y Cyd (P.A.C.T.)
- Merched y Wawr
- Gwasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro
- Pilates

Bu cymuned yr ysgol gyfan yn rhan o'r gweithgareddau canlynol:

- Apêl Plant Mewn Angen a gododd £840
- Trefnu casglu anrhegion ar gyfer *Operation Christmas Child*
- UNICEF – yn ystod tymor yr hydref cododd yr ysgol gyfanswm o £870 trwy gasgliadau diolchgarwch am y cynhaeaf, cyngherddau Nadolig a chardiau aelodau staff
- Cododd Diwrnod y Trwynau Coch £700
- Cododd gwerthiant pabïau ar gyfer Apêl Flynyddol y Pabi £100 a chododd Apêl Flynyddol Cennin Pedr Marie Curie £100
- Gefeillio ag ysgol yn Yr Yswistir
- Rhan o Brosiect Comenius sy'n ein cysylltu ag ysgolion mewn gwahanol rannau o Ewrop
- Perfformiodd y côr mewn digwyddiad elusennol yng Nghanolfan Byddin yr Iachawdwriaeth yn Nhreganna, Neuadd Dewi Sant ac i groesawu hediad rhestredig cyntaf cwmni awyrennau o'r Yswistir
- Gwahoddwyd y côr i hedfan i'r Yswistir o'r 4ydd – 6ed o Orffennaf 2011. Telir yr holl gostau gan Awyrennau Helvetic
- Cefnogi addysg disgyblion yn Rwanda
- Rhoi bwyd a phethau ymolchi yn anrhegion i elusen Wallich Clifford
- Partneriaeth agos â'r heddlu, e.e. P.C. Julia Smith a P.C. Emma Warner (swyddogion cyswllt ein hysgol).
- Gwahodd gweinidogion yr efengyl i'r ysgol
- Cyfeillion yr Ysgol yn trefnu arddangosfa dân gwyllt lwyddiannus iawn a ras hwyl y pentref.
- Rhaglen lwyddiannus ar gyfer gwirfoddolwyr o oedolion yn yr ysgol. Mae'r gefnogaeth hon yn werthfawr dros ben ac yn gwella addysg y disgyblion
- Rhieni a phobl eraill yn y gymuned sy'n meddu ar wybodaeth benodol am bwnc perthnasol yn dod i'r ysgol i siarad â disgyblion
- Rhodri Morgan A.C. a Kevin Brennan A.S. yn ymweld â'r ysgol

(12) RHAI LLWYDDIANNAU

- Polisi Bwyta'n Iach yn ystod yr egwyl a gyflwynwyd gan y disgyblion ar gyngor yr ysgol
- Fergus Hodgson a gafodd ei ddewis i chwarae rygbi dros Ysgolion Caerdydd a Dwyrain Cymru
- Parti Llefaru Cymraeg Ail Iaith yr ysgol a ddaeth yn gyntaf yn Eisteddfod Sir yr Urdd a thrydydd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Cyflwynwyd y deuddeg aelod gyda medalau efydd a thystysgrifau
- Gwyn Robins a ddaeth yn gyntaf yn yr unawd llinynnol yn Eisteddfod Sir yr Urdd
- Emilia Gallo a ddaeth yn gyntaf am lefaru – ail iaith - ar gyfer disgyblion blynyddoedd 5 a 6.

- Casi a Nel Thomas, Heath Barber a Dyfan Lloyd Owen a gafodd wobrau cyntaf mewn gwahanol gategorïau yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft y Sir
- Tîm rhedeg traws gwlad Blwyddyn 4 - Gethin Rosser, Richard Evans, Daniel Macdonald a Rhodri Ellis a ddaeth yn drydydd yn ras Genedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd yn Aberystwyth. Cyflwynwyd medalau efydd i'r pedwar
- Daeth Gareth Powell i'r 24 disgybl olaf yn y profion ar gyfer tîm criced dan 11 Cymru
- Classes 4 a 5 am ennill gwobr gan `Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig` am eu gwaith ar `Gymru yn y Ddeunawfed Ganrif`.
- Daeth grŵp dawns Pwyllgor Eco CA2 yn gyntaf mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan y `Really Rubbish Campaign`.

(13) PRESENOLDEB

Cyfartaledd presenoldeb y cyfnod o Fedi 2010 – Mai 2011 yw:

	Sesiynau	**%**
Presenoldeb	104559	94.8
Absenoldebau a Awdurdodwyd	5513	5.0
Absenoldebau heb awdurdod	269	0.2
Presenoldeb Posibl	110341	
Yn cynnwys:		
Gweithgarwch Addysgol a Awdurdodwyd	319	0.3
Cyrraedd yn hwyr cyn cau cofrestru	331	0.3
Cyrraedd yn hwyr ar ôl cau cofrestru	0	0.0
Absenoldebau heb Esboniad	0	0.0

(14) NEWIDIADAU I BROSBECTWS YR YSGOL

- Newidiadau Staffio
- Cyfarfodydd Trosglwyddo ar gyfer rhieni disgyblion sy'n trosglwyddo o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3
- Cadeirydd, is-gadeirydd a chlerc newydd i'r Corff Llywodraethol o fis Medi 2011
- Amser cinio yn newid i 12.10 – 1.20 y.p.
- Dim egwyl yn y prynhawn
- Newid enwau`r dosbarthiadau i gydfynd gyda`r flwyddyn ysgol

(15) DYDDIADAU TYMHORAU A GWYLIAU 2011/12

CADWCH Y DYDDIADAU HYN ER MWYN CYFEIRIO ATYNT YN Y DYFODOL!

Tymor	Dechrau'r tymor	Dechrau Hanner Tymor	Diwedd Hanner Tymor	Diwedd y Tymor
Hydref 2011	Dydd Llun 05.09.11	Dydd Llun 24.10.11	Dydd Gwener 28.10.11	Dydd Mawrth 20.12.11
Gwanwyn 2012	Dydd Mawrth 03.01.12	Dydd Llun 13.02.12	Dydd Gwener 17.02.12	Dydd Iau 05.04.12
Haf 2012	Dydd Llun 23.04.12	Dydd Llun 04.06.12	Dydd Gwener 08.06.12	Dydd Gwener 20.07.12

Diwrnodau Hms:

Dydd Llun 5 Medi 2011

Bydd 4 diwrnod sicr o HMS arall yn ystod y flwyddyn gyda phosibiliad o chwech – y dyddiadau i`w pennu

Bydd pob ysgol yn cau ddydd Llun 7 Mai ar gyfer Gŵyl y Banc Calan Mai

Peter Evans
Prifathro **16.06.11**